# Adeiladu a chynnal offer a dyfeisiadau a ddefnyddir i brosesucynnyrch coedlan a phren gwyrdd

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag adeiladu a chynnal offer a dyfeisiadau a ddefnyddir i brosesu cynnyrch coedlan a phren gwyrdd.  Mae'n cynnwys adeiladu ac addasu'r offer a'r dyfeisiadau.

Wrth weithio gyda pheiriannau mae angen eich bod wedi cael yr hyfforddiant priodol, ac yn meddu ar ardystiad cyfredol lle bo angen, yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

Mae'n rhaid i'ch gwaith gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer perthnasol wrth wneud y gwaith hwn.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. asesu'r peryglon sydd yn gysylltiedig â'r gwaith arfaethedig
2. dewis a gweithredu dulliau gwaith priodol yn unol â'r peryglon a aseswyd
3. dewis a defnyddio'r offer amddiffynnol personol (PPE) priodol ar gyfer y gwaith
4. cael neu ddyfeisio manyleb glir a chywir i adeiladu offer a dyfeisiadau a ddefnyddir i brosesu cynnyrch coedlan a phren gwyrdd
5. adnabod a tharddu deunyddiau addas i adeiladu'r offer a'r dyfeisiadau yn unol â'r fanyleb
6. creu/neu gael y cydrannau gofynnol i adeiladu'r offer a'r dyfeisiadau yn unol â'r fanyleb
7. dewis yr offer priodol sy'n ofynnol i adeiladu offer a dyfeisiadau
8. adeiladu'r offer a'r dyfeisiadau yn unol â'r fanyleb
9. sicrhau bod offer a dyfeisiadau yn ddiogel ac yn addas at y diben
10. addasu offer a dyfeisiadau fel bo angen
11. adnabod unrhyw namau neu welliannau y gellir eu gwneud i'r offer a'r dyfeisiadau a thrwsio'r rhain
12. cadw offer a dyfeisiadau a ddefnyddir i brosesu cynnyrch coedlan a phren gwyrdd mewn cyflwr gweithio da a diogel
13. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill yr holl amser, yn unol â deddfwriaeth berthnasol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i adnabod peryglon ac asesu risg
2. sut i ddehongli asesiadau risg
3. pwysigrwydd defnyddio'r offer amddiffynnol personol (PPE) cywir
4. yr ystod o offêr a dyfeisiadau a ddefnyddir i brosesu cynnyrch coedlan a phren gwyrdd a'u defnydd gwahanol
5. swyddogaeth pob rhan o'r offeryn neu'r ddyfais
6. y ffynonellau gwybodaeth gwahanol i gael manylebau clir a chynhwysfawr ar gyfer adeiladu offer a dyfeisiadau a ddefnyddir i brosesu cynnyrch coedlan a phren gwyrdd
7. y dyluniadau gwahanol a'u teilyngdod perthynol
8. sut i adnabod deunyddiau addas i'w defnyddio i adeiladu offer a dyfeisiadau yn unol â'r fanyleb
9. sut i greu/neu gael y cydrannau gofynnol i adeiladu offer a dyfeisiadau yn unol â'r fanyleb
10. sut i adeiladu ac addasu'r offer a'r dyfeisiadau yn unol â'r fanyleb
11. yr addasiadau y gellir eu gwneud i offer a dyfeisiadau i wella eu perfformiad
12. prif achosion dirywiad offer a dyfeisiadau a ddefnyddir i brosesu cynnyrch coedlan a phren gwyrdd a'r mesurau y gellir eu cymryd i leddfu'r achosion hyn
13. y dulliau o gynnal yr ystod o offer a dyfeisiadau i sicrhau eu bod yn dal yn effeithiol dros amser
14. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol

LANTw55

Adeiladu a chynnal offer a dyfeisiadau a ddefnyddir i brosesucynnyrch coedlan a phren gwyrdd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANTw55 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Coedlannu |
| **Cyfres/Set** | Gwaith coed |
| **Geiriau Allweddol** | offer; dyfeisiadau; pren gwyrdd; coedlan; crefft |